This is a bilingual email. Click here for English.

Annwyl rieni/gwarcheidwaid,

Mae eich plentyn nawr yn y cyfnod ble mae'n cymryd mwy o reolaeth a chyfrifoldeb dros gynllunio ei ddyfodol.

Mae Gyrfa Cymru yma i'ch helpu gyda mynediad at wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd a fydd yn eich helpu i gefnogi eich plentyn i ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael, fel y gall wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â'r llwybr gyrfa sy'n addas iddo ef/iddi hi. Mae hyn yn cynnwys ei gefnogi i:-

- Ddewis y pynciau mae'n eu hastudio;
- Deall mwy am barhau mewn addysg;
- Cynhyrchu syniadau ynglŷn â swyddi;
- Deall mwy am gyfleoedd prentisiaeth;
- Dysgu mwy am y byd gwaith.

Dyma gopi o'r llyfryn sydd yn egluro mwy am ein gwasanaethau a sut yr ydym yn gweithredu. Byddem yn eich annog I ddarllen hwn a trhafod hyn gyda'ch plentyn.

Os hoffech gael copi wedi ei argraffu neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'ch cynghorydd gyrfa Ceril Roberts drwy unai ffonio neu tecstio 07552258795 neu ebostio ceril.roberts@careerswales.gov.wales

Cofion
Gyrfa Cymru